



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Y Gwobrau ²⁰²⁰ The Accolades

Rhaglen wobrwyo rithwir
Dydd Mawrth, 10 Tachwedd 2020

Trefn y rhaglen

12:00pm Rhaglen yn cychwyn:

Croeso gan ein cyflwynydd, Garry Owen, ac yna neges gan Julie Morgan MS, y Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Neges gan Mick Giannasi CBE, Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru

Y gwobrau, rhan 1, dan arweiniad Garry Owen a Sue Evans

Diolch i'n gweithwyr gofal am eu gwaith yn ystod y pandemig

Y gwobrau, rhan 2

Neges gan gomedïwr, Rhod Gilbert

Y gwobrau, rhan 3

1:15pm Diwedd y rhaglen

Mae'r amseroedd uchod yn amcangyfrif a gallant newid.

Neges gan y Dirprwy Weinidog

Rwy'n falch iawn o fod yn rhan o'r Gwobrau eleni i rannu a dathlu'r gwaith anhygoel sy'n digwydd yn y sector gofal.

Mae'r Gwobrau yn gyfle gwych i dalu teyrnged i'r gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar ac i ddathlu cyfraniad y rhai sy'n darparu rhagoriaeth mewn gofal.

Mae mor bwysig ein bod yn dathlu rhagoriaeth mewn gofal, bellach yn fwy nag erioed. Yn ystod blwyddyn hynod ac anodd i ni i gyd, dylem fod yn falch ac yn cael ein calonogi gan enghreifftiau anhygoel y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol.

Ni fu'r amgylchedd rydyn ni'n gweithio ynddo erioed wedi bod yn fwy heriol. Mae'r angen am wasanaethau gofal a chymorth yn tyfu ac mae pwysau i wneud mwy, a'i wneud yn wahanol.

Mae cyrraedd rownd derfynol y Gwobrau yn gyflawniad anhygoel ac mae pob un o'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol wedi creu argraff arnaf. Mae'r gwaith yn wirioneddol arloesol ac ysbrydoledig – mae cymaint i ymfalchïo ynddo.

Rhaid i ni beidio bod yn swil wrth ddathlu ac amlygu gwaith enillwyr y Gwobrau a phob un o'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol, a hoffwn ddiolch iddynt i gyd am eu hymroddiad anhygoel, eu hymrwymiad a'u hangerdd am y gwaith maen nhw wedi gwneud.



Mae pobl yn dibynnu ar eu sgiliau a'u proffesiynoldeb, ac maen nhw'n gwneud gwahaniaeth o ddifri yn ein cymunedau ac ar draws Cymru bob dydd. Mae ymroddiad, sgiliau a gwaith caled wedi dod â nhw i'r Gwobrau 2020, ac mae'n ffrind i gydnabod a dathlu eu llwyddiant.

Julie Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog dros lechyd
a Gwasanaethau Cymdeithasol

Croeso i'r Gwobrau 2020

Rydym ni'n falch iawn o'ch croesawu i'r Gwobrau 2020, sydd i'w cyhoeddi'n rhithwir am y tro cyntaf fel rhan o raglen i'w darlledu dros y rhynggrwyd.

Mae eleni wedi bod yn heriol iawn i'r rheini sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, gofal plant a blynyddoedd cynnar, gyda nifer o weithwyr yn mynd tu hwnt i hynny dros yr wyth mis diwethaf. Maen nhw wedi darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i bobl Cymru o dan amgylchiadau digynsail.

Dyma pam y credwn ei bod hi'n bwysig, nawr yn fwy nag erioed, ein bod ni'n cydnabod, yn dathlu ac yn rhannu'r gwaith rhagorol sy'n digwydd. Mae pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, gwaith cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant yn haeddu cael eu cydnabod a'u dathlu am eu hymrwymiad parhaus i helpu pobl.

Mae wedi gwneud argraff arnom nid yn unig o ran y nifer uchaf erioed, ond gyda safon y ceisiadau a dderbyniom ni ar gyfer y Gwobrau 2020. Mae'n dangos faint o enghreifftiau gwyb o ofal rhagorol sydd gennym ni yng Nghymru.

Rydym ni'n falch iawn o groesawu yn rhithwir y 19 ysbrydoledig sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol ac i gael negeseuon gan ein Dirprwy Weinidog Julie Morgan a chomediwr Rhod Gilbert yn y rhaglen heddiw.

Yn yr un modd ag y mae partneriaeth yn chwarae rhan enfawr mewn llawer o'r prosiectau sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol heddiw. Mae'n bwysig hefyd i sut rydym yn trefnu'r Gwobrau. Yn sicr ni allwn eu rhedeg ar ben ein hunain. Hoffem ni ddiolch felly i'r beirniaid am yr amser, yr ymdrech a'r arbenigedd y maen nhw wedi'u cyfrannu at y broses feirniadu.

Rydym ni hefyd yn ddiolchgar i'n noddwyr: Blake Morgan, City & Guilds, CBAC, Data Cymru, yr ymgyrch Gofalwn Cymru ac UNISON. Mae eu cefnogaeth hwy yn golygu ein bod yn gallu dathlu gwaith gwyb y sectorau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yng Nghymru, hyd yn oed yn ystod yr argyfwng presennol.

Llongyfarchiadau i bob un o'r rhai sydd wedi cyrraedd rownd derfynol y Gwobrau. Mae'n llwyddiant rhagorol y dylech fod yn falch iawn ohono. Gobeithio y byddwch i gyd yn mwynhau'r digwyddiad dathlu heddiw.



Mick Giannasi CBE

Cadeirydd, Gofal Cymdeithasol Cymru



Sue Evans

Prif Weithredwr, Gofal Cymdeithasol Cymru

Y panel beirniadu 2020

Roedd y panel beirniadu ar gyfer y Gwobrau 2020 yn cynnwys cynrychiolwyr o'n Bwrdd, ein sefydliadau partner ym maes gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar, cyn-enillwyr y Gwobrau a phobl gyda phrofiad o ddefnyddio gofal a chymorth yng Nghymru.

Llawer iawn o ddiolch i bob un ohonynt, ac i'r sefydliadau canlynol am eu cefnogaeth yn ystod y proses beirniadu:

- Addysg a Gwellu Iechyd Cymru
- All Wales Forum
- Barnardo's
- Cymdeithas Alzheimer's
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru
- Cyngor Gwynedd
- Fforwm Gofal Cymru
- Llywodraeth Cymru
- My Mates
- Pacey
- Prifysgol Abertawe
- Technoleg Iechyd Cymru.

Ein cyflwynydd – Garry Owen

Mae Garry'n newyddiadurwr uchel ei barch sydd wedi dilyn storïau mawr ar hyd a lled Cymru a'r byd. Fe ddechreuodd ei yrfa yn Sain Abertawe cyn ymuno â BBC Cymru fel gohebydd teledu a radio yn eu stiwdio yn Abertawe.

Fel cyflwynydd mae'n adnabyddus ar y teledu a'r radio. Am nifer o flynyddoedd bu yn un o brif gyflwynwyr rhaglen *Newyddion* ar S4C a chyflwynydd y rhaglen radio dyddiol *Taro'r Post*, ac mae bellach yn ohebydd arbennig i BBC Radio Cymru. Mae e hefyd yn un o dîm cyflwynwyr rhaglen *BBC Wales Today*.


Mae galw mawr am Garry fel cyflwynydd cyngherddau ac mae e wedi cael y frainc o gyflwyno artistiaid o fri gan gynnwys Katherine Jenkins, Rebecca Evans a Catrin Finch. Bu yn arweinydd llwyfan droeon yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd, ac Eisteddfod Llangollen.



Rhod Gilbert

Rhod Gilbert yw un o brif ddoniau comedi'r DU. Mae e wedi mwynhau sawl blwyddyn lwyddiannus fel seren teledu a radio, ac mae'n parhau i gynnal ei enw da uchel ei barch fel cyflwynydd, awdur a pherfformiwr byw. Mae Rhod wedi bod yn gyflwynydd ac yn westai ar sawl sioe boblogaidd fel *Have I Got News For You?*, cwis pop eiconig BBC2 *Never Mind the Buzzcocks*, a'i sioe banel ei hun *Ask Rhod Gilbert*. Fel stand-yp mae e wedi perfformio ar *Live at the Apollo* a hyd yn oed wedi ei gyflwyno ddwywaith.

Mae Rhod wedi ysgrifennu a chyflwyno naw cyfres o *Rhod Gilbert's Work Experience* ar gyfer BBC One Wales. Mae Rhod yn gynhyrchydd cyswllt ar y rhaglen, yn falch o ymwneud â phob agwedd ar y cynhyrchiad, ar ac oddi ar y sgrin.



Ar hyd y ffordd, mae Rhod wedi rhoi cynnig ar bob math o swyddi o fod yn ddyn bin i fod yn fwtler i Arglwydd, a hyd yn oed yn beilot ymladdwr y RAF. Yn y gyfres ddiweddaraf, ymgymrodd Rhod ag un o'i heriau anoddaf eto – sef bod yn weithiwr gofal – gan ddysgu, hyd yn oed mewn amseroedd mwy cyffredin, pa mor werthfawr yw gweithio mewn gofal, os nad yw bob amser yn cael ei werthfawrogi.

Categoriâu a'r rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol

Mae'r rhain yn y drefn y cânt eu cyflwyno

Adeiladu dyfodol disglair gyda phlant a theuluoedd

Noddwyd gan UNISON



Y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ar gyfer ei brosiect 'Model Cymorth i Deuluoedd Conwy', gyda phum tîm yn y gymuned yn cynnig cymorth i deuluoedd. Hefyd, mae'r prosiect wedi datblygu adnodd dwyieithog i'w ddefnyddio gyda theuluoedd i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig iddynt, eu hanghenion a'u blaenoriaethau, cynllun gweithredu a llwybr at gymorth pellach.

Gwasanaeth Mentor Rhieni Navigate @ Scope

Ar gyfer ei brosiect yn cynnig cymorth pwrpasol i rieni sydd â phlentyn ar lwybr tuag at gael diagnosis o anabledd neu nam, neu sydd wedi cael diagnosis o fewn y 12 mis diwethaf. Mae'n darparu cymorth emosiynol ac ymarferol teilwredig i rieni a gofalwyr, sy'n eu helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plentyn.

Cyngor Bro Morgannwg

Ar gyfer ei brosiect 'Gwasanaeth Rhianta Teulu'n Gyntaf y Fro' yn cynorthwyo teuluoedd i adeiladu ar eu cryfderau a gwneud newidiadau cadarnhaol, gan helpu rhieni i deimlo'n fwy hyderus i reoli ymddygiad, arferion a ffiniau. Mae'n canolbwyntio ar hybu llesiant emosiynol a chefnogi perthnasoedd teuluol cadarnhaol, ac mae'n elwa o gefnogaeth arbenigol gan fydwagedd.

Datblygu ac ysbrydoli gweithlu yfory

Noddwyd gan Data Cymru



Y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol:

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Ar gyfer ei brosiect 'Outside In', sef grŵp ffocws sy'n defnyddio ffyrdd arloesol i addysgu gweithwyr cymdeithasol y dyfodol. Mae 'Outside In' yn gwneud yn siŵr bod myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn dysgu o brofiad ac arbenigedd unigolion sydd wedi derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, gwaith cymdeithasol ac iechyd.

Tîm Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

Ar gyfer ei brosiect 'Consortium Coleg Gyrfa Gwent', sy'n cynnig ymagwedd ymarferol at heriau recriwtio trwy gynnig dull cyfannol o ategu datblygu, cymhwyso a recriwtio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngwent.

Mudiad Meithrin

Ar gyfer ei adran hyfforddi a datblygu, sef 'Academi', sy'n cynnig cyfleoedd i staff a gwirfoddolwyr gofal plant, cyfrwng Cymraeg, ddatblygu amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau drwy ei raglen hyfforddi genedlaethol. Yn 2018-19, aeth mwy na 2,100 o bobl i 142 o gyrsiau Academi.

Gwella gofal a chymorth yn y cartref gyda'n gilydd

Noddwyd gan City & Guilds a CBAC



Y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol:

Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint

Ar gyfer eu prosiect yn darparu gweithgareddau ystyrlon yn ystod y dydd i fwy na 250 o bobl ag anableddau dysgu. Mae'r prosiect yn helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd, datblygu annibyniaeth a llunio cysylltiadau cymdeithasol a gwneud ffrindiau. Hefyd, mae'n gweithio gyda rhaglen byw â chymorth i helpu'r bobl y mae'n eu cynorthwyo, eu rhieni a'u gofalwyr, i fanteisio ar wasanaethau seibiant.

NEWCIS

Ar gyfer ei brosiect 'Pontio'r Bwlch', sy'n caniatáu i ofalwyr di-dâl fanteisio ar seibiannau hyblyg a dibynadwy. Mae'n caniatáu i ofalwyr gymryd seibiant fel y bo'n addas i'w hanghenion a gall gynorthwyo yn achos angen brys am seibiant.

Ffyrdd arloesol ac ysbrydoledig o weithio

Noddwyd gan Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ar gyfer ei brosiect 'Meddwl am y Baban', sy'n cynnig ymyrraeth gynnar effeithiol i deuluoedd mewn ymdrech i wella canlyniadau yn y tymor byr, canolig a hir. Mae'r prosiect yn rhoi cymorth cyn ac ar ôl geni i deuluoedd, gyda'r nod o ostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Cyngor Sir Gâr

Ar gyfer ei brosiect 'We Can Run', sy'n amcanu at wella iechyd a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl a hyrwyddo effeithiau cadarnhaol posibl bod yn egniol ar eu hiechyd meddwl. Mae'r prosiect yn cynnig clwb rhedeg a chyngor ar ffordd o fyw, diet a maeth, ynghyd â gwasanaethau eraill, fel ffisiotherapi a phlatfform cyfathrebu i'w ddefnyddwyr.

Cyngor Dinas Casnewydd

Ar gyfer ei fenter, 'Project Perthyn', sydd wedi ymrwymo i agor tri chartref newydd i blant yn ardal yr awdurdod lleol. Nod y prosiect yw dod â phlant yn ôl i Gasnewydd – i'w cartref, eu hysgol a'u teulu – ac mae'n helpu plant i aros yng Nghasnewydd trwy gynnig math gwahanol o brofiad gofal.

Gwranddo i a gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia

Noddwyd gan Blake Morgan



Y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol:

Cyngor Gwynedd

Ar gyfer ei brosiect 'DementiaGo', sef gwasanaeth dwyieithog sy'n amcanu at roi cyfle i bobl â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr, fod yn egnïol, cael hwyl a bod yn rhan o gymuned. Mae'r dosbarthiadau'n cynnwys ymarferion i wella cryfder, cydbwysedd a chydymud, i helpu gyda gweithgareddau bob dydd. Mae chwaraeon, fel tenis bwrdd, yn boblogaidd, felly hefyd cerddoriaeth, canu a dawnsio.

Y Rainbow Centre

Ar gyfer ei brosiect canolfan ddydd, sef hyb cymunedol pwrpasol sy'n cynnig amrywiaeth o ymyriadau, fel grwpiau ymarfer corff a diddordebau cymdeithasol, allgymorth cymunedol a chyfeillio, ynghyd â chludiant cymunedol a chyfleoedd gwirfoddoli. Nod y prosiect yw hybu heneiddio cadarnhaol a rhoi grym i bobl hŷn fod mor annibynnol â phosibl ac ailgysylltu â'r gymuned leol.

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Ar gyfer ei phrosiect yn canolbwyntio ar y ffordd y mae'n ymateb i bobl â dementia. Mae'r prosiect yn datblygu fframwaith dysgu a datblygu i'w staff a'i wirfoddolwyr, atgyfeiriadau mwy effeithiol, amgylcheddau ystyriol o ddementia a phartneriaethau gwell gyda gwasanaethau allweddol. Mae gan bobl sy'n bwy gyda dementia, a'u gofalwyr, llais cryf yng ngwaith y prosiect ac mewn cynlluniau at y dyfodol.

Gwobr Gofalwn Cymru

Noddwyd gan Ymgyrch Gofalwn Cymru

Gofalwn
.cymru

WeCare
.wales

Mae'r wobwr Gofalwn Cymru yn wobwr newydd ar gyfer y Gwobrau 2020. Mae'n dathlu gweithwyr gofal unigol yng Nghymru sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl. Dewiswyd yr enillydd gan bôl cyhoeddus, lle pleidleisiodd mwy na 2,000 o bobl.

Y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol:

Andrew Mack, gweithiwr cymorth gofal i Ymddiriedolaeth
Gofalwyr De Ddwyrain Cymru

Enwebwyd gan Emma Baker, pennaeth seibiant a seibiannau byr yr elusen



Enwebwyd Andrew am ei fod yn "weithiwr cymorth ymroddedig, greddfoll sy'n cyfoethogi ac yn gwella bywydau pob plentyn a theulu y mae'n eu cefnogi". Mae Andrew yn addasu ei ymagwedd at bob plentyn, gan feithrin perthnasoedd cryf gyda theuluoedd ac yn defnyddio offer cyfathrebu i ddeall eu meddyliau, dymuniadau, teimladau a dewisiadau. Mae e hefyd yn ymgorffori'r Côt Ymarfer, gan hyfforddi ei gydweithwyr i sicrhau cefnogaeth eithriadol i blant a'u gofalwyr. Disgrifir Andrew fel "unigolyn, gydweithiwr a gweithiwr cymorth eithriadol sy'n haeddu'r gydnabyddiaeth uchaf am ei ymroddiad, ei ymrwymiad a'i fedr".

Jackie Moon, cynorthwydd domestig yng Nghartref Preswyl
Cartref Porthceri i Bobl Hŷn

Enwebwyd gan Marijke Jenkins, rheolwr gweithrediadau'r cartref



Fel Hyrwyddwr Dementia Cartref, dechreuodd Jackie prosiect pontio'r cenhedloedd yn dod â phreswylwyr y cartref a phlant ysgol leol at ei gilydd bob pythefnos. Mae'r prosiect hwn wedi ysgogi ac ennyn diddordeb y preswylwyr a chynyddu hyder y bobl ifanc. Mae hefyd wedi helpu i chwalu stereoteipiau niweidiol a hybu mwy o ymdeimlad o gyd-barch a dealltwriaeth, gan ysgogi'r bobl ifanc i fod yn Gyfeillion Dementia a helpu i sefydlu cymuned leol sy'n deall dementia. Mae Jackie wedi ysbrydoli pobl eraill ac mae hi'n helpu i gyflwyno'r rhaglen hon ledled Bro Morgannwg.

Jayne Jenkins, gweithiwr gofal cartref i Dîm Bridgestart (CRT)
Enwebwyd gan Paul Jones



Enwebwyd Jayne am ei gwaith yn gofalu am dad Paul Jones, a dderbyniodd gofal lliniarol ar gyfer canser angheuol. Chwaraeodd Jayne ran ganolog yn llesiant, ymwybyddiaeth ofalgar a phositifrwydd tad Paul, ac fe'i hanogodd i wenu, siarad a dod mor annibynnol ag y gallai fod yn ystod ei hymweliadau. Mae Paul yn disgrifio Jayne fel "gweithiwr proffesiynol o'r radd flaenaf", "seren go iawn" a "thipyn o arwres". Meddai Paul: "Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod yn falch iawn o gael rhywun mor ymroddgar, cyfeillgar a brwdfrydig ynglŷn â'i rôl â Jayne yn gweithio gyda nhw".

Kate Mellor, gweithiwr cymorth preswyl / gweithiwr allweddol yn QEWC
Enwebwyd gan Curtis Baines, ei harweinydd tîm



Enwebwyd Kate am ei gwaith gyda'i phlentyn allweddol, y mae hi wedi bod yn ffigwr allweddol a chysn iddi, a'i model rôl/gwarcheidwad pwysicaf. Dros y tair blynedd diwethaf, mae Kate wedi adeiladu hyder y plentyn, ac wedi'i gweddnewid yn berson ifanc cryf, annibynnol a hyderus. Mae Kate yn hyrwyddo'n weithredol treftadaeth Lithwanaidd ei phlentyn allweddol ac yn aml yn mynychu ei digwyddiadau yn ei hamser rhydd. Mae Curtis yn disgrifio bond Kate gyda'i phlentyn allweddol fel un "arbennig iawn", ac meddai, "allwn i ddim bod yn fwy balch o weld gwaith mor ardderchog ac anhunanol".

Sandra Stafford, ofalwr maeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Enwebwyd gan weithwyr cymdeithasol Danielle Dally a Sarah Vater



Mae "gofalwyr maeth eithriadol" Sandra a'i gŵr Mark wedi bod yn ofalwyr maeth er 2001, yn dangos ymrwymiad ac angerdd ac yn darparu ansawdd uchel o ofal. Rhoddwyd un plentyn maeth gyda'r teulu ar ôl iddi gael ei rhyddhau o'r ysbyty. Mae Sandra, fel y prif ofalwr, yn wynebu heriau bob dydd, ond cafodd y plentyn ei chroesawu gyda breichiau agored a rhoddwyd cariad, sefydlogrwydd a thosturi iddi, a fyddai'n ei galluogi i wneud cynnydd sylweddol wrth adfer. Darparwyd cartref diogel a chariadus i'r plentyn hwn, mae hi'n cael ei derbyn ac yn cael ail gyfle am fywyd ac i gyrraedd ei llawn botensial.

Ein noddwyr

Blake Morgan

Noddwr Gwrando i a gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia



Sefydlwyd Blake Morgan yn 2014 yn sgil uno Blake Lapthorn a Morgan Cole LLP. Mae'n cynnig dewis o 70 o wasanaethau cyfreithiol i gleientiaid masnachol a phreifat ar draws sawl sector, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae gan Blake Morgan 126 o bartneriaid, 400 o gyfreithwyr a mwy na 1,000 o aelodau staff mewn chwe lleoliad ar draws y Deyrnas Unedig, ac mae ganddo ymrwymiad cryf i wneud gwahaniaeth.

City & Guilds a CBAC

Noddwr Gwella gofal a chymorth yn y cartref gyda'n gilydd



Ers mis Medi 2019, consortiwm City & Guilds a WJEC fu unig ddarparwr cyfres newydd o gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, a chymwysterau gofal plant yng Nghymru.

Mae City & Guilds a CBAC yn credu'n gryf mewn grymuso pobl gyda chyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Trwy ddatblygu a gweithredu ei set newydd o gymwysterau, ei nod yw helpu pobl i gael mewn i swyddi a gallu symud ymlaen mewn swydd. Byddant yn helpu i wneud hyn trwy godi safonau mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru; datblygu rhaglenni ac asesiadau dysgu; darparu llwybrau i ddysgwyr ar gyfer dilyniant gyrfya clir a chefnogi dwyieithrwydd.

Eu cenhadaeth yw darparu cymwysterau, adnoddau a gwasanaethau o ansawdd uchel a fydd yn cynorthwyo canolfannau i alluogi eu dysgwyr i gyflawni eu potensial a diwallu anghenion gweithle heddiw ac yfory.

Data Cymru *Noddwr Datblygu ac ysbrydoli gweithlu yfory*



Mae Data Cymru yn cynnig ystod o gymorth arbenigol sydd wedi'i gynllunio i helpu pobl i ddod o hyd i ddata a'i ddefnyddio'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys helpu i ddod o hyd i, casglu, neu goladu data, dadansoddi data, cyflwyno data yn effeithiol a llawer mwy. Ei ffocws strategol yw: "rhoi data a deallusrwydd wrth wraidd darparu gwasanaethau cyhoeddus".

Mae Data Cymru yn chwarae rhan ganolog wrth sicrhau bod data yn diwallu anghenion ei gynulleidfa trwy gynrychioli barn llywodraeth leol yng Nghymru ynghylch materion fel y Cyfrifiad, a data poblogaeth ac ymfudo. Mae ganddo hefyd gyfoeth o ddata sydd ar gael mewn mapiau, tablau ac adroddiadau yn ei system genedlaethol Info Base Cymru.

Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru *Noddwr Ffyrdd arloesol ac ysbrydoledig o weithio*



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Mae Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, dan gadeiryddiaeth Mick Giannasi CBE, yn cynnwys unigolion profiadol sydd ag ystod eang o wybodaeth o gefndiroedd amrywiol. Rôl y bwrdd yw:

- darparu arweinyddiaeth effeithiol; diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion heriol
- hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian
- sicrhau bod gweithgareddau Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol, a
- monitro perfformiad i sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad.

Gellir gweld rhestr llawn aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys manylion eu cefndiroedd a'u harbenigedd, ar [wefan Gofal Cymdeithasol Cymru](#).

UNISON

Noddwr Adeiladu dyfodol disglair gyda phlant a theuluoedd



UNISON yw'r undeb mwyaf yng Nghymru gyda mwy na 100,000 o aelodau ledled y wlad. Dyma hefyd yr undeb mwyaf yn y DU gyda chyfanswm o bron i 1.4 miliwn o aelodau.

Mae ganddo aelodau ym mhob maes gofal cymdeithasol fel cartrefi nyrsio a phreswyl, gofal cartref ac elusennau.

Ffurfiwyd yr undeb ym 1993 pan unodd tri undeb llafur y sector cyhoeddus, Cymdeithas Swyddogion Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol, Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Cyhoeddus a Chyddfederasiwn Gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd.

Mae UNISON wedi bod yn rhan enfawr o lawer o welliannau i amodau gwaith hyd yma, gan gynnwys rhoi'r penwythnosau i'r byd, yr isafswm cyflog cenedlaethol, pensiynau gweithle, yr hawl i beidio â chael eich diswyddo am fod yn feichiog neu'n sâl, a llawer mwy o hawliau cyfreithiol.

Ymgyrch Gofalwn Cymru
Noddwr y wobwr Gofalwn Cymru

Gofalwn | **WeCare**
.cymru | .wales

Mae Gofalwn Cymru yn ymgyrch amlgyfrwng fawr ddwyieithog a ddatblygwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru mewn cydweithrediad ag ystod eang o sefydliadau cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud â gwahanol agweddau o ofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Ei nod yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant a denu mwy o bobl sydd â'r sgiliau a'r gwerthoedd cywir i weithio mewn rolau gofalu gyda phlant ac oedolion.

Nod ymgyrch Gofalwn Cymru yw dangos yr amrywiaeth o rolau a chyfleoedd dilyniant gyrfa sydd ar gael. Trwy ddefnyddio gweithwyr gofal go iawn, mae'r ymgyrch yn canolbwyntio ar yr heriau sy'n eu hwynebu, yn ogystal â'r hyn sy'n gwneud eu gwaith yn wobrwyl ac yn werth chweil.

Mae gwefan yr ymgyrch, gofalwn.cymru, bellach yn cynnwys porth swyddi, sy'n rhestru swyddi gwag cyfredol ar gyfer rolau gofal ledled Cymru.